**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

5ed Chwefror 2026

**Presennol**

Richard Williams (Cadeirydd), Megan Lloyd Williams (Golan), Enid Egginton, Clifford Williams, John Jones (Garndolbenmaen), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Iddon Edwards (Penmorfa) Raymond Jones (Pentrefelin) Stephen Churchman (Cynghorydd Cyngor Gwynedd)

**Ymddiheuriadau**

Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), June Jones (Cynghorydd Cyngor Gwynedd) Huw Pritchard (Pentrefelin), John Till (Golan), Gwilym Evans (Prenteg)

**Datgan Buddiant**

MLW (Eitem 10)
RJ (Eitem 10)
SCH (Eitem 10)
EE (Eitem 10)
EE (Eitem 10)
IE (Eitem 10)

**Penderfyniadau**

Rhoddion Ariannol

Penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol i'r mudiadau canlynol:

CFFI Dyffryn Madog - £300.00
Dawns i Bawb - £100.00
Theatr Bara Caws - £200.00
Clwb Merched Garn - £100.00
Eisteddfod Garndolbenmaen - £300.00
Canolfan Pentrefelin - £400.00
Neuadd Penmorfa - £400.00
Ysgol Garndolbenmaen - £300.00
Ysgol y Gorlan - £300.00
Canolfan Gymdeithasol Golan - £400.00
Neuadd Garndolbenmaen - £400

Penderfynwyd peidio rhoi rhodd i Urdd Gogledd Cymru - MLW yn cynnig a JJ yn eilio. Dim cais wedi'i dderbyn gan Ranbarth Eryri.

Gan nad oes cyfrif banc gan Glwb Merched Garndolbenmaen penderfynwyd rhoi siec o £100 i Ysgol Garndolbenmaen i dalu am y gost o logi ystafell yno.

Roedd pawb yn gytûn wrth ddyrannu'r arian.

Penodi Archwilydd Mewnol

Penderfynwyd penodi Hughes-Jones Dyson i fod yn archwilydd mewnol. Pawb yn gytûn.

Cynllunio

**NP2/16/306B –** Isallt Bach, Golan, Garndolbenmaen, LL51 9AQ. Codi garej ar wahân. Ddim yn cefnogi'r cais.

Cyfrif Cadw

Mae llog cyfrif cadw presennol y Cyngor Cymuned gyda HSBC yn 1.32% ac yn mynd i ostwng i 1.20% o'r 10fed o Fawrth 2026 ymlaen.

Rhannwyd a chyflwynwyd gwybodaeth am wahanol gyfrifon cadw busnes sydd ar gael ar hyn o bryd. Trafodwyd Moneybox, Unity Trust Bank, Virgin Business Access Savings Account, Hinkley & Rugby Building Society, Tide a Hampshire Trust Bank.

Penderfynwyd agor cyfrif cadw Virgin Business Access Savings Account. IE yn cynnig a CW yn eilio. Pawb yn gytûn.

Manteision y cyfrif yma yw nad oedd ffi a chost i'r cyfrif. Mae'n gyfrif ar-unig (stand alone) gyda mynediad cyflym (instant Access).

Mae'r llog yn 3.45% Gross a 3.5% AER.

IE yn cynnig ein bod yn trosglwyddo £30,000 i'r cyfrif cadw newydd. MLW yn eilio a phawb yn cydweld.

Clerc i anfon holl fanylion y cyfrif i'r cynghorwyr.